# **Santes Gwenffrewi, *c.* 6ed ganrif** Lleian

Yn ôl traddodiad, merch oedd Gwenffrewi i Teuyth fab Eylud a oedd yn byw mewn ardal o sir Fflint a elwid Tegeingl. Yr oedd ei mam, Gwenlo ferch Bugi, yn chwaer i Beuno Sant. Fel unig ferch meddyliai ei rhieni'r byd ohoni ac yr oeddent am ei rhoi yn llwyr i wasanaeth Duw. Gofynnwyd i Beuno ei hyfforddi yn grefyddol er mwyn ei pharatoi i fod yn lleian, a chytunodd yntau ar yr amod ei fod yn cael darn o dir i adeiladu eglwys arno. Ymgynghorodd Teuyth â'r Brenin Eliuth ac fe gafwyd lle o'r enw Sychnant lle codwyd yr eglwys.

Un tro daeth dyn anystywallt o'r enw Caradog fab Alog i'r ardal i hela a galwodd yn y bwthyn lle'r oedd Gwenffrewi'n byw. Bore Sul oedd hi ac yr oedd pawb ond Gwenffrewi wedi mynd i'r eglwys i addoli. Ceisiodd hi ffoi oddi wrth Caradog trwy redeg draw at yr eglwys, ond cyn iddi gyrraedd daliodd Caradog hi gan dorri ei phen i ffwrdd. Gwelodd Beuno Sant yr hyn a ddigwyddodd a melltithiodd Caradog gan ei droi yn gŵyr toddedig. Yna rhoddodd ben Gwenffrewi yn ôl ar ei gwddf fel nad oedd hyn yn oed graith i'w gweld. Dywedir bod ffynnon wedi tarddu lle syrthiodd ei phen, ac mae'r ffynnon honno i'w gweld yn Nhreffynnon hyd heddiw. Roedd y ffynnon yn un o saith rhyfeddod Cymru oherwydd y cyflenwad rhyfeddol o ddŵr a lifai ohoni.

Aeth Gwenffrewi i Fodfari er mwyn cael hyfforddiant pellach gan feudwy o'r enw Deifer, ond anfonodd ef hi i Wytherin ger Llangernyw at fynach o'r enw Eleri. Rhoddodd ef hi yng ngofal ei fam Theonia a oedd yn rhedeg lleiandy, ac wedi marwolaeth Theonia aeth Gwenffrewi yn bennaeth atynt. Dywedir ei bod hefyd wedi sefydlu lleiandy yn Nhreffynnon a'i redeg am saith mlynedd. Bu farw yng Ngwytherin ac fe'i claddwyd gan Eleri Sant. Y mae coel i'w gweddillion gael eu symud i abaty Amwythig ym 1138.

Neilltuwyd dau ddydd gŵyl i Gwenffrewi: gŵyl torri ei phen ar 22 Mehefin a gŵyl ei marw ar 3 Tachwedd. Nid oes llawer o eglwysi yng Nghymru wedi eu cysegru iddi, ac nid oes un eglwys, hyd yn oed eglwys Treffynnon, yn arddel ei henw.